**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymarfer Hap-samplu**

**gan y**

**Panel Craffu**

# Adolygiad o Warediadau y Tu Allan i'r Llys ar gyfer meddu ar gyffuriau a reolir, â ffocws ar ddrwgdybiedigion sy'n fenywod a phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

**(Ionawr 2020 – Gorffennaf 2020)**

**Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel**

**Hydref 2020**

## Cynnwys

## 1. Trosolwg

**Mewn cyfarfod o Banel Craffu ar Waredіadau y tu allan i'r Llys Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2020, adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion meddu ar gyffuriau a reolir yr ymdriniwyd â hwy drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys. Disgwylir i'r Panel gynnal adolygiad blynyddol o Waredіadau y Tu Allan i'r Llys a roddwyd i gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a menywod a ddrwgdybir.**

**Ystyriodd y Panel gyfanswm o 21 achos. Roedd 10 yn ymwneud â drwdybiedigion ifainc ac 11 yn ymwneud ag oedolion.**

**Oherwydd y pandemig COVID-19 a chanllawiau'r llywodraeth o ran ymbellhau cymdeithasol, cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir drwy'r rhaglen 'Skype for Business'.**

## 1. Cefndir, diben a methodoleg

**Mae Aelodau'r Panel ar y cyd yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Pythefnos cyn pob cyfarfod, maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol a ddewiswyd ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna, mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosib, dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb y gwarediadau. Wrth benderfynu pa gategori mae'r achos yn perthyn iddo, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**

**•Barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;**

**•Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;**

**•Sail resymegol dros y penderfyniad a'r canlyniad;**

**•Effaith debygol ar y gymuned ;**

**•Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a**

**•Dewisiadau eraill posibl a allai fod ar gael.**

**Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:**

**•Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;**

**•Defnydd priodol  gydag amheuon gan Aelodau'r Panel;**

**•Defnydd amhriodol neu ddiffyg cysondeb â'r polisi; a**

**•Panel yn methu â chyrraedd canlyniad.**

## 1. Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel

**Gallaf i ________Jayne Picouto____ (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llwyr y farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu ar 26 Hydref 2020.**

**Llofnod: ___Jayne Picouto___________________________**

**Dyddiad: __23/02/2021______________________________**

## 1. Camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod panel diwethaf

**O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau canlynol ers y cyfarfod diwethaf:**

- **O fewn y cyfarfod diwethaf, nodwyd bod manylion ar goll neu wedi'u cofnodi'n anghywir yn achosion 1, 3, 5 ac 8 mewn perthynas ag ymosod cyffredin ac achosion sy'n gysylltiedig â COVID-19. Yn dilyn adborth y Panel, adolygwyd a diweddarwyd pob achos, gydag unrhyw wybodaeth a oedd ar goll wedi'i chwblhau.**

## 1. Arfer da

**Nodwyd yr arfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:**

- **Gwnaeth y Panel sylwadau penodol wrth adolygu dau o'r achosion ieuenctid bod adroddiadau'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn drylwyr a manwl. Nodwyd bod unigolion wedi'u trin yn effeithiol ac effeithlon.**

## 1. Meysydd sydd angen gwelliant

**Roedd un maes penodol ar gyfer gwella a nodwyd o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:**

- **Canfu'r Panel bod 6/21 achos naill ai wedi'u gwaredu'n anghywir, neu roedd gan y Panel amheuon. Yn arbennig, teimlwyd y dylai dau o'r achosion oedolion fod wedi derbyn rhybudd amodol er mwyn cael eu cyfeirio'n briodol i'r Cynllun Dargyfeiriol am gymorth. Hefyd, ni soniwyd am oedolyn arall yn cael ei gyfeirio pan oedd rhybudd amodol wedi'i gyhoeddi. Tra bod y Panel yn ei ystyried yn arfer da i gyfeirio pob unigolyn cymwys, canfu nad oedd cyfeiriadau bob amser yn cael eu gwneud yn gyson i'r Cynllun Dargyfeiriol.**

## 7.0 Ystyriaeth o achosion o feddu ar gyffuriau a reolir – drwgdybiedigion ifainc

**Ymdriniwyd â naw achos drwy Warediad Adferol Ieuenctid, ac un drwy Rybudd Ieuenctid.**

**Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:**

| Asesiadau’r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| **Priodol** | **8** |
| **Priodol gydag amheuon** | **1** |
| **Panel yn methu â chyrraedd canlyniad** | **1** |

## 1. Arsylwadau

**Nodir isod sylwadau Aelodau’r Panel ar gyfer pob achos.**

**Achos 1**

**Teimlai’r Panel fod Gwarediad Cymunedol Ieuenctid yn briodol gan nad oedd gan y drwgdybyn unrhyw euogfarnau blaenorol, ac roedd yn ymgysylltu’n dda â’r Tîm Troseddau Ieuenctid.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

**Roedd yr achos hwn yn ymwneud â drwgdybyn y cafwyd hyd i ychydig o ganabis arno pan gafodd ei stopio a’i chwilio. Teimlai’r Panel fod yr achos wedi’i waredu’n amhriodol drwy Rybudd Ieuenctid, ac y dylai fod wedi’i ddwysau. Ar y pryd, roedd yr unigolyn eisoes ar orchymyn cyfeirio, ac aeth yr unigolyn ymlaen i gyflawni troseddau pellach. Nodwyd hefyd nad oedd yr unigolyn wedi’i gyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid. Roedd hyn yn erbyn y Polisi ac yn gyfle a gollwyd ar gyfer cymorth ychwanegol.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 3**

**Roedd yr achos hwn yn ymwneud â throseddwr y cafwyd hyd i 5g o ganabis llysieuol yn ei feddiant. Ymdriniwyd â’r drwgdybyn drwy Ddatrysiad Cymunedol Ieuenctid. Cytunodd y Panel fod hwn yn ganlyniad priodol gan mai trosedd gyntaf y drwgdybyn ydoedd, roedd yn ymgysylltu’n dda â chymorth, ac roedd wedi dangos edifeirwch.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 4**

**Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid i'r unigolyn hwn am fod canabis wedi'i ganfod yn ei feddiant. Ystyriwyd bod hyn yn briodol gan nad oedd llawer o ganabis wedi'i ganfod, a throsedd gyntaf y drwgdybyn ydoedd. Nodwyd hefyd bod yr unigolyn wedi'i gyfeirio at weithgarwch dargyfeiriol a'i fod wedi cwblhau cwrs ymwybyddiaeth cyffuriau.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

**Teimlai'r Panel fod canlyniad yr achos hwn yn briodol gan nad oedd llawer o ganabis wedi'i ganfod. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd digon o wybodaeth wedi'i chofnodi yn y cofnodion a bod y drwgdybyn wedi cael gwybod am ganlyniad y Datrysiad Cymunedol drwy lythyr gan y Tîm Troseddau Ieuenctid oherwydd y pandemig COVID-19. Gan fod hyn wedi digwydd ym mis Mehefin, trafodwyd y dylai gweithdrefn gliriach fod wedi bod mewn grym ac y dylid fod wedi'i dilyn er mwyn cynnig asesiad a chymorth ymyrraeth priodol yn hytrach na llythyr yn unig. Fodd bynnag, nodwyd fod yr heddlu wedi cyflwyno ffurflen gyfeirio amlasiantaeth, a fyddai wedi sbarduno'r angen ar gyfer cymorth ychwanegol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 6**

**Roedd yr achos hwn yn ymwneud ag unigolyn a gafodd ei stopio a'i chwilio o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau. Daethpwyd o hyd i fag o ganabis llysieuol yn ei feddiant. Teimlai'r Panel nad oedd yr achos wedi'i ymchwilio'n llawn gan fod tystiolaeth o droseddau posibl eraill. Gan hynny, roedd y Panel yn anfodlon â'r canlyniad. Nodwyd hefyd bod yr unigolyn wedi derbyn Datrysiad Cymunedol Ieuenctid pan fyddai'r matrics difrifoldeb yn awgrymu bod rhybudd ieuenctid yn lefel canlyniad priodol.**

**Nodwyd oedi sylweddol cyn y cyflwynodd yr Heddlu'r gwaith papur i'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Dylid cyflwyno cyfeiriadau o fewn 24 awr, ac ni chafodd ei gyflwyno am 4 mis. Nodwyd fod hyn wedi digwydd oherwydd materion cyfathrebu â'r drwgdybyn, problemau staffio o fewn yr Heddlu, a'r achos yn cael ei gyfeirio i'r llys ac yn ôl eto. Fodd bynnag, nodwyd fod adroddiad trylwyr wedi'i gyflwyno gan y Tîm Troseddau Ieuenctid yn dilyn yr oedi hwn.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Cam Gweithredu 1:**

**Y Prif Arolygydd i adolygu Achos 6 a chadarnhau pa un ai a gynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau mewn perthynas â'r troseddau posibl ychwanegol. Bydd yr achos yn cael ei ddwyn i'r cyfarfod nesaf ar gyfer trafodaethau pellach.**

**Achos 7**

**Roedd yr aelodau'n fodlon â chanlyniad y Datrysiad Cymunedol Ieuenctid gan na ddaethpwyd o hyd i lawer o ganabis, ac nid oedd gan y drwgdybyn unrhyw euogfarnau blaenorol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 8**

**Daeth y Panel i'r casgliad bod datrysiad cymunedol ieuenctid yn briodol, gan nad oedd llawer o ganabis wedi'i ganfod. Nododd yr Aelodau bod y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi cyflwyno adroddiad trylwyr a manwl ar gyfer yr unigolyn hwn, gan dynnu sylw at yr angen ar gyfer cymorth ychwanegol. Cyflwynodd yr heddlu ffurflen gyfeirio amlasiantaeth er mwyn ceisio diogelu'r unigolyn.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 9**

**Canfu'r Panel fod canlyniad o ddatrysiad cymunedol yn briodol gan nad oedd gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau blaenorol. Holwyd pa un ai a ddylai'r unigolyn fod wedi derbyn hysbysiad cosb benodedig am dorri rheoliadau COVID-19 yn ychwanegol i'r canlyniad ar gyfer meddu ar gyffuriau. Cadarnhaodd y Prif Arolygydd fod y camau a gymerwyd yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd i swyddogion mewn perthynas â chosbau COVID-19 a thramgwyddau troseddol eraill.**

**Asesiad y Panel:  Priodol**

**Cam Gweithredu 2:**

**SCHTh i roi gwybodaeth ynglŷn â thorri rheoliadau COVID-19 a thramgwyddau troseddol i Aelodau Panel.**

**Achos 10**

**Rhoddwyd datrysiad cymunedol ieuenctid i'r unigolyn yn yr achos hwn. Teimlwyd fod hyn yn briodol gan fod y digwyddiad yn un lefel is, cyfaddefodd yr unigolyn i'r drosedd yn llawn, ac roedd yn barod i dderbyn cymorth.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

## 8.0 Ystyriaeth o achosion o feddu ar gyffuriau a reolir – drwgdybiedigion sy'n oedolion

**Adolygodd Aelodau'r Panel 11 achos oedolyn; ymdriniwyd â 2 o'r achosion drwy gyfrwng Rhybudd, 4 drwy Rybudd Amodol, a 5 drwy Ddatrysiad Cymunedol.**

**Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:**

| Asesiadau'r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 7 |
| Amhriodol | 3 |
| Panel yn methu â chyrraedd canlyniad | 1 |

**Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos:**

**Achos 11**

**Teimlai'r Panel fod Rhybudd Amodol yn ganlyniad priodol ar gyfer yr achos hwn. Daethpwyd o hyd i dipyn sylweddol o gyffuriau ym meddiant y drwgdybyn, a gyfaddefodd i ddefnydd rheolaidd hirdymor. Yn gadarnhaol, nodwyd fod yr unigolyn wedi'i gyfeirio i'r Cynllun Dargyfeiriol a bod yn rhaid iddo dderbyn cymorth fel rhan o'i amodau.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 12**

**Roedd Aelodau Panel yn fodlon â'r gwarediad o Rybudd Amodol ar gyfer yr unigolyn hwn, a oedd wedi'i ganfod â chanabis llysieuol yn ei feddiant. Hon oedd trosedd**

**gyntaf y drwgdybyn, ac roedd yn ymgysylltu'n dda â'r Cynllun Dargyfeiriol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 13**

**Teimlai'r Panel fod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol. Daethpwyd o hyd i ganabis yng nghyfeiriad cartref y drwgdybyn a rhoddwyd Rhybudd iddo. Teimlai'r Panel y byddai rhybudd amodol wedi bod yn briodol oherwydd cyfeiriwyd yr unigolyn yn uniongyrchol i'r Cynllun Dargyfeiriol, a oedd yn anghyson â pholisi'r Heddlu. Roedd y drwgdybyn yn amharod i gymryd rhan yn y cynllun, a dywedodd y Panel y dylai hyn fod wedi bod yn rhan o'i amodau er mwyn cydymffurfio â'r polisi.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 14**

**Daethpwyd o hyd i 1g o ganabis llysieuol ym meddiant y drwgdybyn hwn. Canfu'r Panel bod canlyniad datrysiad cymunedol yn briodol. Dyma oedd trosedd gyntaf y drwgdybyn, ac ni ddaethpwyd o hyd i lawer o gyffuriau.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 15**

**Daeth y Panel i'r casgliad fod Datrysiad Cymunedol yn ganlyniad priodol ar gyfer yr achos hwn gan mai hon oedd trosedd gyntaf y drwgdybyn. Fodd bynnag, nodwyd bod yr unigolyn wedi'i gyfeirio at y Cynllun Dargyfeiriol, ond nad oedd yn cydymffurfio ac ymgysylltu.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 16**

**Rhoddwyd Rhybudd Amodol i'r troseddwr yn yr achos hwn. Nid oedd gan y Panel unrhyw bryderon ynglŷn â'r canlyniad hwn gan fod 1g o ganabis llysieuol wedi'i ganfod yn ei feddiant, ac er bod gan yr unigolyn euogfarn flaenorol, roedd hynny dros 20 mlynedd yn ôl. Yn y cyfarfod, nodwyd nad oedd cyfeiriad i'r Cynllun Dargyfeiriol wedi'i gyflwyno. Fodd bynnag, roedd aelod o'r Adran Cyfiawnder Troseddol wedi cadarnhau fod hyn wedi'i ddilyn ers hynny a bod cyfeiriad wedi'i gyflwyno yn awr o ganlyniad i'r achos yn dod i sylw'r Panel.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 17**

**Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol i'r troseddwr yn yr achos hwn. Teimlai'r Panel fod y gwarediad hwn yn briodol gan mai trosedd gyntaf y troseddwr ydoedd a'i fod yn derbyn cymorth gan y Cynllun Dargyfeiriol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 18**

**Roedd y Panel yn methu â chyrraedd canlyniad o ran yr achos hwn oherwydd nid oedd yn glir pa un ai a oedd yr unigolyn wedi derbyn datrysiad cymunedol ai peidio. Canfu 7g o ganabis a 23 tabled MDA ym meddiant yr unigolyn. Roedd yr unigolyn yn ymgysylltu'n dda â chymorth drwy'r Cynllun Dargyfeiriol, fodd bynnag, mae'n aneglur o'r cofnodion pa un ai a yw'r Datrysiad Cymunedol wedi'i gyflwyno, oherwydd ymddengys ei fod wedi'i gofnodi'n anghywir.**

**Asesiad y Panel: Panel yn methu â chyrraedd canlyniad**

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 3:**<br><br>**Dwyn achos 18 i'r cyfarfod nesaf â gwybodaeth bellach ynglŷn â pha un ai a gyhoeddwyd datrysiad cymunedol.** |

**Achos 19**

**Teimlai'r Panel bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol drwy Rybudd. Roedd cerbyd y troseddwr wedi'i stopio, a chwiliad wedi datgelu pedair potel o fethadon. Cyfaddefodd yr unigolyn ei fod yn gaeth, ac ni wnaed cyfeiriad i'r Cynllun Dargyfeiriol. Teimlai'r Panel fod hyn yn erbyn y Polisi, ac y dylai'r unigolyn fod wedi derbyn Rhybudd Amodol. Roedd y Panel hefyd yn poeni nad oedd cofnod o brawf cyffuriau'n cael ei gynnal ar ôl canfod cyffuriau ym meddiant y troseddwr wrth yrru.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 20**

**Teimlai'r Aelodau Panel bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol drwy Rybudd Amodol. Er eu bod dros 5 mlynedd yn ôl, roedd gan y troseddwr nifer o euogfarnau mewn perthynas â chyffuriau yn y gorffennol, gan gynnwys cynhyrchu canabis, ac roedd wedi treulio amser yn y carchar. Daeth y Panel i'r casgliad y dylid fod wedi dwysau'r achos hwn oherwydd hanes yr unigolyn.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 21**


**Ni fynegodd Aelodau Panel unrhyw bryderon ynglŷn â gwaredu'r achos hwn. Canfu 0.4g o ganabis ym meddiant y troseddwr ac nid oedd ganddo unrhyw euogfarnau blaenorol. Gan hynny, teimlwyd bod Datrysiad Cymunedol yn briodol.**


**Nodwyd hefyd bod y troseddwr wedi'i stopio a'i chwilio, ac mai'r rheswm a nodwyd dros chwilio oedd arogl canabis cryf yn dod o'r cerbyd. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha un ai a oedd hyn yn sail ddigonol ar gyfer stopio a chwilio. Cynghorir swyddogion na ddylid chwilio ar sail arogl yn unig.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**


| |
|---|
| **Cam Gweithredu 4:**<br><br>**SCHTh i adolygu cofnod stopio a chwilio achos 21 ar gyfer cyfreithlondeb.** |


## 9.0 Ethnigrwydd a Rhyw – Crynodeb o ddata achosion






**O’r sampl o 21 achos a adolygwyd, ni nodwyd unrhyw faterion neu dueddiadau mewn perthynas ag ethnigrwydd a’r canlyniadau gwarediadau y tu allan i’r llys a roddwyd i unigolion.**








**Rhoddwyd rhestr i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o'r holl achosion gwarediadau y tu allan i'r llys ar gyfer oedolion a phobl ifainc sy'n ymwneud â meddu ar gyffuriau o Ionawr - Awst 2020. Er mwyn cynnal adolygiad blynyddol y Panel o Warediadau y Tu Allan i'r Llys mewn perthynas â benywod a phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, dewiswyd adolygu pob achos a oedd â drwgdybyn o'r gymuned pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Arweiniodd hyn at 5/21 achos yn syrthio i'r categori pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Adolygwyd achosion saith troseddwraig, sef pum oedolyn a dwy ferch ifanc. Oherwydd nifer yr achosion sydd ar gael, cydnabu fod hyn yn sampl bach o unigolion sy'n cael eu hadolygu, fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw faterion neu dueddiadau mewn perthynas â rhyw a'r canlyniadau gwarediadau y tu allan i'r llys a roddwyd i unigolion.**

## 10.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

**Mae'r siartiau canlynol yn dangos asesiadau'r Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.**





**Ers Tachwedd 2013 mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o warediadau, fel y gwelir yn y graff isod.**




**O’r 387 o achosion a adolygwyd rhwng Ebrill 2013 a Hydref 2020, cafodd 57% eu hasesu’n briodol, 21% yn amhriodol, 20% yn briodol gydag amheuon, a methodd y Panel â dod i ganlyniad mewn 2% o’r achosion.**


**Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff canlynol.**




**Mae’r graff isod yn dangos y dadansoddiad fesul math o drosedd fel canran o’r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Hydref 2020. (Mae’r rhifau a arddangosir o fewn y colofnau graff yn nodi nifer yr achosion a adolygwyd â’r canlyniad penodol hwnnw).**




**Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer gwirioneddol o achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Gorffennaf 2020.**




## 10.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

**Yn dilyn trafodaeth, roedd y Panel eisiau ystyried achosion trosedd sy’n ymwneud â Cham-drin Domestig a Gwir Niwed Corfforol yn y cyfarfod nesaf.**

## 11.0 Unrhyw Fusnes Arall

**Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â throseddwr â chyffuriau yn ei feddiant a oedd wedi derbyn Datrysiad Cymunedol. Amod o’r datrysiad oedd i’r unigolyn gyfrannu at elusen. Holwyd arweinydd yr heddlu ar warediadau y tu allan i’r llys am hyn. Yr oedd yn ystyried fod hwn yn amod addas. Daeth y Panel i’r casgliad y dylai cyfrannu at elusen fod yn wirfoddol. Nid oedd rhodd i elusen yn amod priodol ym marn y Panel.**

**Roedd adolygiad blynyddol o gylch gorchwyl y Panel ar fin cael ei gynnal. Yr unig ddiwygiad i’r ddogfen oedd cynnwys y ffaith y byddai rhai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir oherwydd COVID-19. Derbyniodd y Panel yr ychwanegiad hwn, ac nid oedd angen gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach.**

**Cafodd y Panel wybod am ymgynghoriad ar Orchymyn Lleihau Trais Difrifol y Llywodraeth, sy’n cau ar 8 Tachwedd 2020. Mae’r ymgynghoriad yn cynnig arf i**

**dargedu unigolion sy'n cael eu heuogfarnu o drosedd berthnasol (unrhyw gyllell / arf bygythiol). Byddai'r arf hwn ar gael i'r llys, ynghyd â mesurau targedig eraill, a byddai'n galluogi'r heddlu i stopio a chwilio'r rhai sydd wedi eu heuogfarnu o droseddau perthnasol. Byddai'r ymagwedd hwn yn creu gwell tebygolrwydd y bydd unigolion yn cael eu dal os ydynt yn cario cyllell neu arf, gan eu galluogi i gael eu dwyn o flaen y llysoedd a derbyn dedfryd o garchar.**